

## **Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2021 drwy Zoom**

Yn Bresennol: Yr Athro Karen Holford (Cadeirydd), Michelle Aldridge-Waddon, Michelle Alexis, yr Athro Rudolf Allemann, Jane Chukwu, Venice Cowper, Kathryn Davies, Georgie East, Dr Sam Hibbitts, yr Athro Tim Phillips, Jude Pickett, Helen Obee Reardon, Abyd Quinn Aziz, Claire Sanders, Cadi Thomas, Yr Athro Damian Walford Davies, yr Athro Ian Weeks, a Matthew Williamson.

Hefyd yn bresennol: Hayley Beckett, Julie Bugden, Susan Cousins, Karen Harvey-Cooke, Ruth Harwood, Alaw Hughes, Rashi Jain, Chris James, Michelle Jones, Andrew Lane, Ben Lewis (o Minute 752.2), Andy Lloyd, Sue Midha, Catrin Morgan, Charlotte Shand, a Gail Thomas.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Kim Graham a Claire Morgan.

### 749 **Croeso**

Nodwyd i'r Cadeirydd agor y cyfarfod a chroesawu aelodau newydd a sylwedyddion i'r Pwyllgor;

### 750 **Cofnodion**

Nodwyd Y Canlynol

750.1 cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Awst 2020 (20/79R) yn gofnod cywir ac y byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd;

#### **Penderfynwyd Y Canlynol**

750.2 yn ddarostyngedig i'r gwelliannau canlynol, cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020 (20/335) yn gofnod cywir ac fe'u lofnodwyd gan y Cadeirydd:

.1 ***Abyd Quinn Aziz i'w gofnodi fel presennol.***

### 751 **Materion yn Codi**

Derbyniwyd a Nodwyd papur 20/335, 'Materion yn Codi'.

### 752 **Eitemau gan y Cadeirydd**

Derbyniwyd papur 20/352, 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Amrywiaeth mewn Arweinyddiaeth yr Is-Ganghellor - gweithredu'.

## Nodwyd Y Canlynol

752.1 'Ein Straeon, Prosiect Gwrandu: effeithiau cydraddoldeb COVID-19' - diweddariad

- .1 mae'r prosiect wedi llwyddo i dynnu sylw at nifer o faterion a sut y gallai'r Brifysgol ddarparu cymorth ychwanegol ynglŷn â'r rhain ac roedd pecyn cymorth ar gyfer lles yn cael ei ddatblygu i'w lansio erbyn dechrau mis Chwefror 2021 a byddai rhagor o wybodaeth yn ymddangos yn Blas;
- .2 cynhelir cyfarfodydd gyda'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ar y canfyddiadau gyda'r bwriad o hyrwyddo'r camau a gymerwyd ar draws y Brifysgol;
- .3 estynnwyd diolch i Helen Obee Reardon am y gwaith helaeth a wnaed ar y prosiect hwn.

752.2 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Amrywiaeth mewn Arweinyddiaeth yr Is-Ganghellor

- .1 mae'r papur (20/352) yn nodi cylch gwaith y grŵp, yr oedd ei waith bellach wedi dod i ben, ac wedi atodi siart o weithgarwch cydraddoldeb hiliol ar draws y Brifysgol a chynllun gweithredu y gofynnwyd i'r Pwyllgor ei drafod a'i ystyried;
- .2 gallai'r siart gweithgarwch cydraddoldeb hiliol ddatblygu dros amser i gynnwys grwpiau eraill, gan gynnwys grwpiau myfyrwyr eraill, pan fo hynny'n bosibl;
- .3 cynhaliwyd trafodaeth ar y rhwystrau a nodwyd gan y grŵp a nodwyd bod hyn yn amrywio mewn sefyllfaoedd gwahanol. Er enghraifft, nodwyd y gellid ehangu dulliau anffurfiol o recriwtio neu rwydweithio, a oedd y tu allan i brosesau ffurfiol safonol, i gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;
- .4 ei bod yn hanfodol meithrin diwylliant o gynhwysiant ac annog uchelgais ar lefelau uwch, a phob lefel o'r Brifysgol;
- .5 cynigiwyd y dylid ymgorffori'r cynllun gweithredu yng ngwaith y Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol a fyddai'n adrodd i'r Pwyllgor EDI ac mae camau gweithredu'n cael eu halinio a'u cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**Penderfynwyd Y Canlynol**

- .6 penodi'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol fel perchnogion y cynllun gweithredu i fonitro'r gweithgareddau a gyflawnir gan y perchnogion gweithredu ac adrodd i'r Pwyllgor EDI.

## 753 **Diweddariad ar Wasanaethau Coleg/Proffesiynol**

Rhoddodd yr Athro Ian Weeks, PVC ar gyfer Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau a gweithgareddau EDI yn y Coleg.

Nodwyd Y Canlynol

753.1 bod y Coleg wrthi'n sefydlu Pwyllgor EDI ar lefel Coleg a fyddai'n adrodd i Fwrdd y Coleg. Hyd yma, roedd materion EDI wedi cael eu hystyried fel rhan o Fwrdd y Coleg ond cydnabuwyd bod maint y Coleg yn golygu bod angen mwy o amser i drafod y pwnc;

753.2 bod gweithgareddau allweddol Coleg EDI yn cynnwys:

- cynllun peilot llwyddiannus a oedd wedi cyflwyno cwestiynau yn seiliedig ar werthoedd ac ymddygiadau fel rhan o'r broses gyfsweld. Defnyddiwyd hyn gan 243 o baneli cyfsweld ar gyfer 688 o ymgeiswyr. Gan fod y cynllun wedi cael derbyniad da, byddai bellach yn symud i fusnes fel arfer;
- roedd cyfathrebu wedi'i ddsbarthu ledled y Coleg i annog datgelu data monitro cydraddoldeb i helpu i lywio gweithgarwch yn y dyfodol;
- bod gwaith ar y gweill i gynyddu cyfraddau cwblhau hyfforddiant EDI gorfodol ar draws y Coleg;

753.3 cynhaliwyd trafodaeth ar fanteision rhannu arfer da a llwyddiannau ar draws yr holl Golegau a bod hyn yn cael ei ddilyn y tu allan i'r cyfarfod.

## 754 **Rhwydwaith, Rhwydwaith Iaith Gymraeg Staff**

Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan Cadi Thomas, Cyd-Gadeirydd Rhwydwaith Staff y Rhwydwaith.

Nodwyd Y Canlynol

754.1 mae nodau ac amcanion y rhwydwaith yn cynnwys:

- codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg i staff a myfyrwyr
- gweithio gyda changen Caerdydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- cyfarfod â Grŵp Llywio'r Gymraeg
- hwyluso fforwm i staff drafod materion sy'n codi;

754.2 roedd digwyddiadau a gweithgareddau'r rhwydwaith yn y gorffennol a'r dyfodol yn cynnwys:

- ysgrifennu at y Prif Swyddog Gweithredu gan bwysleisio pwysigrwydd cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chynnwys Cymraeg gwefan y Brifysgol
- yn dilyn y cyfyngiadau fel rhan o bandemig COVID-19 roedd gweithgareddau wedi symud ar-lein ac erbyn hyn roedd gan grwpiau sgwrsio tua 50 o gyfranogwyr
- wrth symud ymlaen bydd y rhwydwaith yn cefnogi Deon y Gymraeg i hyrwyddo Strategaeth newydd y Gymraeg yn dilyn ei lansio
- bydd y rhwydwaith yn cydweithredu'n agos â'r academi draws-sefydliadol newydd a gynllunir fel rhan o Strategaeth newydd y Gymraeg.

## 755 **Rhwydwaith Staff Anabledd**

Cafwyd cyflwyniad ar lafar gan Michelle Aldridge-Waddon, Cyd-Gadeirydd y Rhwydwaith Staff Anabledd.

Nodwyd Y Canlynol

755.1 bod Tracey Evans wedi ymddiswyddo'n ddiweddar yn dilyn sawl blwyddyn fel Cyd-Gadeirydd ac mae Emma Jenkins wedi cael ei phenodi'n Gyd-gadeirydd newydd;

755.2 roedd digwyddiadau a gweithgareddau'r rhwydwaith yn y gorffennol a'r dyfodol yn cynnwys:

- roedd y rhwydwaith wedi trefnu cystadleuaeth yn chwilio am sloganau ac mae'r sloganau buddugol wedi cael eu hargraffu ar grysau-t a'u dosbarthu i aelodau'r rhwydwaith
- roedd y faner wedi cael ei cyhwyfan uwchben y Prif Adeilad ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl ar 3 Rhagfyr, fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19, ni fu'n bosibl trefnu gweithgareddau eraill i nodi'r diwrnod
- mae'r rhwydwaith yn cyfarfod yn ffurfiol bob tri mis ac yn cynnal boreau 'cwpan a dal i fyny' anffurfiol misol. Ar gyfer yr un olaf, mae ymwelwyr wedi ymuno â nhw ar wahanol themâu gan gynnwys arolwg staff, ioga eistedd ac aelodaeth y Brifysgol o'r Fforwm Anabledd Busnes
- roedd cyfranogiad gyda'r rhwydwaith wedi cynyddu ers y newidiadau mewn ymateb i bandemig COVID-19

- bu mwy o ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr
- bwriedir ymwneud â pharcio hygyrch, gan nodi bod hygyrchedd yn mynd y tu hwnt i Fathodynau Glas
- roedd y rhwydwaith wedi cynnig y dylai'r Brifysgol sefydlu Grŵp Llywio Cydraddoldeb i Bobl Anabl ochr yn ochr â'r Grwpiau Llywio Cydraddoldeb Rhywiol a Chydraddoldeb Hiliol;

755.3 bod y rhwydwaith wedi cyfrannu'n sylweddol at Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb Tasglu COVID-19 a diolchodd y Pwyllgor i'r rhwydwaith am eu cyfraniad.

#### 756 **Diweddariadau Undeb y Myfyrwyr:**

Derbyniwyd diweddariad ar lafar gan Georgie East, Jude Pickett a Jane Chukwu ar weithgareddau Undeb y Myfyrwyr.

Nodwyd Y Canlynol

756.1 bod Undeb y Myfyrwyr yn rhoi cymorth sylweddol i fyfyrwyr oedd yn dychwelyd i astudiaethau, yn bersonol ac ar-lein;

756.2 bod pwyntiau allweddol o nodiadau a gweithgareddau yn cynnwys:

- cododd cyfarfod diweddar o fforwm y myfyrwyr faterion yr effaith ar iechyd meddwl a chorfforol, cyrhaeddiad academiaidd a darpariaeth anabled
- ymdriniwyd â'r mater o hunanardystio amgylchiadau esgusodol
- derbyniwyd grant gan CCAUC ac roedd gwaith yn cael ei wneud gyda swyddogion lles mewn timau Cymdeithasau a Chwaraeon i ganfod sut y byddai hyn yn cael ei wario
- gan fod digwyddiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal ar hyn o bryd mae calendr digwyddiadau ar-lein wedi cael ei ddatblygu gyda nifer o sesiynau yn ymwneud â phryder, unigrwydd, rheoli lles a hyfforddiant iechyd meddwl
- roedd ymgysylltu â'r Caffi Braint yn cael ei ddatblygu drwy Gadeirydd y Gweithgor Myfyrwyr Cydraddoldeb Hiliol
- roedd y Prosiect Mislif mewn Tlodi yn parhau, gan gyflenwi cynhyrchion mislif i'r rhai mewn caledi
- mae prosiect gofalwyr myfyrwyr yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd
- ffyrdd y gellir cefnogi myfyrwyr ôl-raddedig ac hyrwyddo ymgysylltu ymhellach yn cael eu harchwilio

- mae enwebiadau ar gyfer etholiadau wedi cael eu hagor ac mae gwaith ar y gweill i godi ymwybyddiaeth o gymhwysedd, ac ehangu amrywiaeth yr enwebeion;

756.3 mynegodd y Pwyllgor ei ddiolch i Undeb y Myfyrwyr a chydabod y gwaith sylweddol a gwerthfawr yr oeddent yn ei wneud yn yr amgylchiadau digynsail hyn.

## 757 **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 – Adroddiad Monitro Blynyddol**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papurau 20/353, 'Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Diweddariad ar Gamau Gweithredu', 20/336, 'Adroddiad Data Monitro Myfyrwyr' ac 20/354, 'Adroddiad Data Monitro Staff'.

Nodwyd Y Canlynol

757.1 mai dyma'r adroddiad cyntaf yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a gyhoeddwyd y llynedd. Mae'r pwyntiau nodiadau allweddol yn cynnwys:

- Diweddariadau ar gynnydd ar y camau gweithredu yn cwmpasu gweithgarwch 2020/21 tra bod yr adroddiadau data yn cwmpasu cyfnod adrodd o 2019/20
- datblygiad dangosfwrdd EDI gan y tîm Gwybodaeth Busnes i ddarparu data lefel uchel a manwl, gan sicrhau bod ar gael ar draws colegau/adrannau a rhoi cyfle i grwpiau perthnasol gymryd rhan mewn dadansoddiad o ddata gronynnol nad yw'n bosibl o fewn adroddiad blynyddol SEP
- roedd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gynnydd llawer o gamau gweithredu, ond bu cyfle i ddatblygu gweithgarwch arall a fyddai'n cefnogi'r amcanion a bod hyn wedi cael ei gofnodi pan oedd yn bosibl
- byddai cynllun gweithredu newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiadau hyn
- y byddai diwygiadau pellach yn cael eu gwneud cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu;

757.2 bod yr aelodau wedi rhoi adborth a diweddariadau i gael eu cynnwys yn yr adroddiad cyn ac yn y cyfarfod:

- mynd i'r afael â therminoleg gyfnewidiol
- mae'r gwasanaeth Clicio a Chysylltu wedi cael ei gymryd yn ôl i Adran Cefnogi a Lles Myfyrwyr, a reolir gan staff yn hytrach na chan wirfoddolwyr Undeb y Myfyrwyr

757.3 y dylid darparu unrhyw adborth a diweddariadau pellach yn erbyn gwrthrychau i'r canlynol:

- Amcan 1 – Andrew Lane a Dr Sam Hibbitts
- Amcan 2 – Karen Harvey-Cooke
- Amcan 3 – Dr Sam Hibbitts
- Amcan 4 – Julie Bugden
- Amcan 5 – Andrew Lane

757.4 y byddai'r adroddiad monitro diwygiedig a'r cynllun gweithredu newydd yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor cyn cael eu cyhoeddi.

### **Penderfynwyd Argymell i'r Cyngor**

757.5 y dylid cymeradwyo'r adroddiad Monitro Blynyddol a'r cynllun gweithredu i gael eu cyhoeddi, yn amodol ar gynnwys unrhyw ddiwygiadau pellach.

### **758 Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol:**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/337, 'Grŵp Llywio Anabledd – cylch gorchwyl ac aelodaeth'.

Nodwyd Y Canlynol

758.1 bod y grŵp yn cael ei sefydlu, yn dilyn cynnig gan y Rhwydwaith Staff Anabledd, i gefnogi gwaith y Brifysgol yn ymwneud â'r agenda anabledd, gan gynnwys cyflwyno i gynlluniau achredu fel y Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd;

758.2 y byddai'r grŵp yn eistedd ochr yn ochr â'r Grwpiau Llywio Cydraddoldeb Rhywiol a Chydraddoldeb Hiliol yn strwythurau EDI y Brifysgol;

758.3 codwyd ymholiad ynghylch sut y byddai'r grŵp yn cael ei gefnogi a nodwyd bod hyn yn dal i gael ei ystyried;

758.4 cynhaliwyd trafodaeth ar ym aelodaeth. Nodwyd y byddai hygyrchedd corfforol a digidol yn allweddol ac roedd y rhain yn feysydd a gwmpesir gan yr aelodaeth arfaethedig ar hyn o bryd. Gwnaed cynnig i gynnwys y maes Ymchwil. Nodwyd ymhellach y byddai angen dull hyblyg a gellid ailymweld ag aelodaeth wrth i'r grŵp esblygu.

### **Penderfynwyd Y Canlynol**

758.5 cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a'r aelodaeth arfaethedig.

759 **Mabwysiadu diffiniad IHRA o Wrthsemitiaeth a diffiniad Grŵp Seneddol Hollbleidiol Mwslimiaid Prydain o Islamoffobia**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/335C, 'Mabwysiadu Diffiniad Cynghrair Cofio Rhyngwladol yr Holocost o Wrthsemitiaeth a diffiniad Grŵp Seneddol Hollbleidiol Mwslimiaid Prydain o Islamoffobia'.

Nodwyd Y Canlynol

- 759.1 bod y papur wedi rhoi cefndir i'r cynnig ar gyfer pob diffiniad, gan eu rhoi yng nghyd-destun polisiau ac arferion y Brifysgol, gan amlinellu'r buddion a'r risgiau, a sut yr oedd sefydliadau addysg uwch eraill wedi mynd i'r afael â'r diffiniadau hyn
- 759.2 bod y cynnig wedi cael ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredu'r Brifysgol ac y byddai'n cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Llywodraethu, y Senedd a'r Cyngor;
- 759.3 cynhaliwyd trafodaeth ar ddiffiniad yr IHRA o wrthsemitiaeth yn dilyn ymholiadau a godwyd ar y pryderon cyhoeddus eang am yr effaith ar ryddid lleferydd, sut y gellid dehongli neu gamddehongli'r diffiniad a dylanwad y llywodraeth;
- 759.4 bod yn eglur, pe bai diffiniad yr IHRA o wrthsemitiaeth yn cael ei fabwysiadu, y dylid cynnwys y ddau eglurhad a ddarparwyd gan Bwyllgor Materion Tŷ'r Cyffredin ochr yn ochr â'r diffiniad i liniaru unrhyw amwysedd ynghylch rhyddid i lefaru;
- 759.5 er mwyn cefnogi mabwysiadu'r diffiniadau, byddai angen ymgymryd â gweithgarwch i weithredu'r rhain. Byddai datgoloneiddio'r cwricwlwm, gan ddarparu arweiniad a chyngor fel rhan o brosesau cyfredol y Brifysgol yn rhan o hyn;
- 759.6 na fyddai'r diffiniadau'n atal cymhwyso polisi'r Brifysgol nac yn tanseilio rhwymedigaethau deddfwriaethol ond y byddai'n ddiffiniad i weithio gydag ef ac i beidio;
- 759.7 Y cynhaliwyd pleidlais ar fabwysiadu'r diffiniadau;

**Penderfynwyd Argymell i'r Pwyllgor Llywodraethu**

- 759.8 yr argymhellodd y cynnig yn cael ei ystyried ymhellach yn dilyn trafodaethau a phleidlais yn y Pwyllgor EDI sydd, o fwyafrif o 9 pleidlais o blaid, 1 yn erbyn a 6 yn ymatal, y dylid mabwysiadu Diffiniad Cynghrair Cofio'r Holocost Rhyngwladol o Wrthsemitiaeth a diffiniad Grŵp Seneddol Hollbleidiol Mwslimiaid Prydain o Islamoffobia.

760 **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwlch Dyfarnu BAME**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/338, 'Diweddariad ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwlch Dyfarnu BAME'.

Nodwyd Y Canlynol

- 760.1 bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda Phenaethiaid Ysgol i adrodd ar ganfyddiadau'r grŵp ac i roi cyngor ac arweiniad ar ddatblygu cynllun gweithredu tair blynedd;
- 760.2 y byddai angen i weithred a argymhellir o fewn y cynllun gweithredu, ynghylch cwmselwyr BAME gael ei hystyried gan Gefnogi a Lles Myfyrwyr gan mai nhw oedd yn y sefyllfa orau i ddarparu hyn yn ogystal â
- ystyried mathau eraill o gymorth y mae eu hadran yn eu darparu a allai hefyd fod yn werthfawr i'r cynllun gweithredu. Byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Pennaeth Cefnogi a Lles Myfyrwyr;

### **Penderfynwyd Y Canlynol**

- 760.3 bod cynllun yr Ysgol a Dangosfwrdd Data EDI yn cael eu cymeradwyo, yn amodol ar ddileu'r camau gweithredu mewn perthynas â chynghorwyr BAME.

### **761 Eitemau a dderbyniwyd er gwybodaeth**

Nodwyd y papurau canlynol a dderbyniwyd er gwybodaeth:

Papur 20/339C, Adroddiad Archwilio Cyflog Cyfartal 2020  
 Papur 20/340, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – templed a chanllawiau newydd  
 Papur 20/356, Diweddariadau EDI y Coleg  
 Papur 20/341, Diweddariad ar Rwydweithiau Cydraddoldeb Staff

### **762 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf: 12 Mai 2021 am 14:00.